Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Cribarth

**School Road**
**Aber-craf**
**SA9 1XD**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol y Cribarth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Cribarth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 135 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 99 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 30.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 24/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/07/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru.

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol y Cribarth yn amgylchedd dysgu hynod gefnogol a hapus sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu a dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu pobl eraill. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn mwynhau bod yn yr ysgol. O fannau cychwyn amrywiol pan fyddant yn ymuno â’r ysgol i ddechrau, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin ystod o fedrau a strategaethau sy’n eu galluogi i wneud cynnydd da a dangos medrau effeithiol mewn gwahanol feysydd, fel eu medrau digidol a chymdeithasol.

Mae arweinwyr a staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn gofal. Maent yn cynnal cysylltiadau agos â rhieni, ac mae hyn yn helpu creu ethos cymunedol cytûn yn yr ysgol. Mae’r pennaeth yn meithrin a chynnal cymuned ysgol gynhwysol. Mae’r perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff yn annog pob un o’r disgyblion i ddangos agwedd gyfrifol mewn gwersi a dangos ymddygiad rhagorol o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb yn eu gwersi ac yn mwynhau’r gweithgareddau dilys niferus y maent yn cymryd rhan ynddynt.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o weithgareddau allgyrsiol cyffrous ac amrywiaeth o ymweliadau addysgol, a ddefnyddir i gyfoethogi’r cwricwlwm. Mae llawer o staff yn defnyddio holi’n dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o wahanol feysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy’n gweddu’n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion yn y ffordd orau, neu’n darparu adborth defnyddiol ac amserol i’w cynorthwyo i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae uwch arweinwyr yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae’r ysgol yn adolygu ei chynnydd tuag at nodau gwella yn rheolaidd, er nad yw prosesau monitro bob amser yn arwain at ysgogi gwelliannau dynodedig. O ganlyniad, collir cyfleoedd weithiau i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth gwybodus ac ymroddedig i’r ysgol. Mae’r ysgol wrth wraidd y gymuned y mae’n ei gwasanaethu ac mae’r corff llywodraethol a’r tîm arweinyddiaeth, ynghyd â’r holl staff a’r partneriaid, yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i ganolbwyntio ar anghenion y disgyblion a’u teuluoedd.

## Argymhellion

A1 Mireinio prosesau gwella’r ysgol a gweithredu’n gyflym ar feysydd i’w datblygu

A2 Sicrhau bod pob un o’r athrawon yn darparu adborth defnyddiol ac amserol i gynorthwyo disgyblion i wella’u dysgu

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu her ddigonol ar gyfer disgyblion o bob gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol â lefelau o ddealltwriaeth a medrau yn debyg i’r rhai ar gyfer eu hoedran, neu’n uwch. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd effeithiol o’u mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, bob amser yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud, yn enwedig mewn ysgrifennu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad mewn ymadroddion a brawddegau estynedig i fynegi eu hunain yn dda. Maent yn gwrando’n astud ar yr athro ac ar ei gilydd wrth gydweithio. Mae llawer o ddisgyblion iau yn cyfleu eu syniadau’n glir i oedolion ac i’w gilydd, er enghraifft wrth ddefnyddio blociau i adeiladu awyren. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, mae medrau iaith a hyder y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc yn gywir. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gwerthuso eu perfformiadau dawns yn dda wrth ganolbwyntio ar gydsymud, creadigrwydd a thechneg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae disgyblion iau yn datblygu eu gwybodaeth am y perthnasoedd rhwng llythrennau a seiniau yn effeithiol. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae disgyblion yn defnyddio’r strategaethau hyn yn llwyddiannus i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac ail-ddweud digwyddiadau a thrafod cymeriadau o’r testunau y maent yn eu darllen. Yn gyffredinol, mae disgyblion hŷn yn darllen ar gyflymdra da ac yn defnyddio atalnodi, ac mae llawer ohonynt yn datblygu rhugldet a mynegiant. Maent yn mynegi eu mwynhad o ddarllen yn frwdfrydig ac yn trafod eu hoff awduron a genres yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol. Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n fwy estynedig wrth ysgrifennu disgrifiadau o leoliad ar gyfer eu storïau. Maent yn sillafu geiriau cyfarwydd yn dda ac yn atalnodi eu gwaith gan ddefnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn â chywirdeb cynyddol. Mae disgyblion hŷn yn cynhyrchu ychydig o ddarnau o ysgrifennu estynedig ac mae lleiafrif ohonynt yn ystyried yr iaith y byddant yn ei defnyddio, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau at Frenin Edward i’w annog i beidio â goresgyn Cymru. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu darnau ysgrifennu sy’n ddifyr, gyda dewisiadau geirfa sy’n cael eu gwneud i greu effaith, nac yn defnyddio atalnodi estynedig.

At ei gilydd, mae medrau llawysgrifen disgyblion yn datblygu’n addas. Mae disgyblion iau yn creu marciau, ac erbyn iddynt fod ym Mlwyddyn 6, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu eu llythrennau’n gywir, a lleiafrif ohonynt yn cysylltu eu llawysgrifen ac yn cyflwyno’u gwaith â balchder. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn ffurfio’u llythrennau’n gywir neu’n cyflwyno’u gwaith â gofal.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol cadarn, yn enwedig yn eu gwaith yn defnyddio rhif, ac mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio’r rhain yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Tra byddant yn yr ardal chwarae rôl, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio darnau arian i brynu hufen iâ, er enghraifft. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn adio a thynnu i werth deg yn hyderus. Maent yn dysgu am luosi fel adio wedi’i ailadrodd. Wrth i fedrau disgyblion ddatblygu, maent yn cyfrifo â hyder cynyddol pa eitemau y gallant eu prynu ar gyfer parti môr-ladron gyda £1 i’w wario. Ym Mlynyddoedd 4 a 5, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso’u medrau lluosi yn annibynnol i gyfrifo mesurau cynhwysion sydd eu hangen ar gyfer gwledd ganoloesol trwy luosi symiau â deg, dau ddeg neu ddau ddeg pump. Mae disgyblion hŷn yn gwneud cynnydd cadarn. Er enghraifft, maent yn cyfrifo cyfartaleddau cyfraddau amrywiol curiad y galon ar ôl gwahanol fathau o ymarfer corff wrth ymchwilio i gyfraddau curiad eu calon. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau rhifedd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am y Gymraeg ac yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith sylfaenol y maent wedi’u dysgu i gyfathrebu. Mae disgyblion iau yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau Cymraeg, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cyfarch oedolion ac ymateb iddynt gan ddefnyddio patrymau Cymraeg cyfarwydd. Mae bron pob un o’r disgyblion sy’n mynychu’r dosbarth trochi peilot Cymraeg yn dechrau yn yr ysgol â gwaelodlinau isel yn eu defnydd o’r Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu hyder a chymhwysedd cynyddol wrth siarad Cymraeg, ac yn cymhwyso’r medrau hyn yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm â hyder cynyddol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod fuddiol o fedrau digidol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn llusgo a gollwng delweddau tri dimensiwn mewn ffrâm ddigidol, er enghraifft. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae disgyblion yn dysgu ystod eang o fedrau yn effeithiol, fel sut i greu taenlenni a chodau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn rhaglennu dyfais yn llwyddiannus gan ddefnyddio newidynnau ac algorithmau i greu olrheiniwr gweithgarwch corfforol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn dda. Mae disgyblion iau yn datblygu medrau echddygol manwl cryf i ddefnyddio siswrn ac yn defnyddio offer creu marciau yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn canu caneuon môr-ladron â brwdfrydedd ac mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau creadigol yn hyderus trwy greu sgorau cerddorol gan ddefnyddio terminoleg gerddorol yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6, er enghraifft, yn cymryd rhan mewn dawnsio gwerin Cymreig yn frwdfrydig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos lefelau da o les ac yn mwynhau dod i’r ysgol. Maent yn deall pwysigrwydd dilyn rheolau’r ysgol ac yn parchu ei gilydd. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn gallu rheoli eu hemosiynau yn briodol. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n emosiynol trwy'r cyfleoedd i drafod eu teimladau a'u hemosiynau, er enghraifft trwy wiriadau lles bob dydd. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un o'r disgyblion berthnasoedd cadarnhaol ag oedolion ac â'i gilydd. O ganlyniad, maent yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu ac yn hyderus i gyfrannu syniadau a gofyn am gymorth.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth a phan fyddant yn yr awyr agored yn rhagorol. Mae ystafelloedd dosbarth yn dawel ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i'w gilydd. Wrth symud o gwmpas yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud hynny â gofal ac ystyriaeth am bobl eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn awyddus i ymgymryd â chyfleoedd dysgu newydd ac yn dangos lefelau da o wydnwch wrth fynd ati i wneud tasgau anghyfarwydd. Mae disgyblion yn awyddus i wneud cynnydd da ac yn ymateb yn rheolaidd i adborth gan staff. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar athrawon i roi gwybod iddynt am ba mor dda y maent yn gwneud a rhoi eu camau dysgu nesaf iddynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yn gynyddol. Dangosant synnwyr cynyddol o empathi a thosturi tuag at bobl eraill, ac mae eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn trafod mynd i'r afael â stereoteipiau negyddol sy'n gysylltiedig â ffoaduriaid fel rhan o wasanaeth dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o hawliau'r plant a gallant esbonio sut caiff y rhain effaith ar eu bywydau bob dydd eu hunain a bywydau pobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod buddion bwyta ac yfed yn iach ac yn deall yr effaith a gaiff hyn ar eu cyrff. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn esbonio'n hyderus fod diodydd egni yn cynnwys lefelau uchel o siwgr a fydd yn difrodi eu dannedd a bod dŵr yn opsiwn mwy iach. Erbyn i'r disgyblion fod ym Mlwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl, ac yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd i gynnal bywyd iach. Mae disgyblion yn mynd ati i ymgysylltu ag ystod o strategaethau a ddefnyddir i hyrwyddo'u ffitrwydd, fel 'Milltir y Dydd', 'Ffrindiau Cae Chwarae' ac 'Arweinwyr Chwaraeon Efydd'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan y staff ar ôl yr ysgol ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i ddatblygu gwerthfawrogiad o fyw yn iach tra byddant yn yr ysgol, ac yn eu cynorthwyo i barhau i wneud dewisiadau iach gartref, hefyd. Er enghraifft, mae ychydig iawn o ddisgyblion a ddechreuodd fynychu sesiynau dringo creigiau yn yr ysgol wedi dilyn y gweithgarwch ers hynny, ac wedi ennill cymwysterau y tu allan i'r ysgol.

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr yn eu rolau etholedig ac yn dechrau dylanwadu ar welliannau ar draws yr ysgol. Mae llawer

ohonynt yn hyderus tra'n ymgymryd â'r rolau hyn ac yn esbonio sut mae gweithgareddau yn yr ysgol yn effeithio ar y gymuned ehangach. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth trwy weithgareddau ehangach llais y disgybl. Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cynrychioli'r ysgol fel rhan o bwyllgor Cyngor Tref Ieuenctid lleol Ystradgynlais, lle mae aelodau'n trafod materion cyfredol sy'n effeithio ar bobl ifanc yn yr ardal leol.

Eir ati i ddathlu a chymell presenoldeb da trwy wobrau a dathlu, gan gynnwys gwasanaethau, cylchlythyrau ysgol a gwefan yr ysgol. Mae prosesau presenoldeb, sydd wedi'u cynnwys yn llwybr yr awdurdod lleol, yn ogystal â mentrau yn y dosbarth, yn cael effaith gadarnhaol wrth gau'r bwlch presenoldeb rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion, y maent yn ei reoli'n dda i gynnal disgyblaeth effeithiol a'r awyrgylch cadarnhaol sy'n bodoli o fewn pob dosbarth. Mae staff yn parchu pob un o'r disgyblion, ac mae disgyblion yn ymateb yn yr un ffordd. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gweithio digynnwrf a chadarnhaol, sy'n ffafriol i ddysgu effeithiol lle gall disgyblion fentro â'u gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni chaiff disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl, eu herio'n ddigonol.

Mae cynllunio effeithiol gan athrawon trwy 'Cwricwlwm y Cribarth' yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion sy'n datblygu eu medrau a'u diddordebau yn briodol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ddiddorol ac yn ennyn sylw disgyblion yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu mewn cyd-destunau dilys. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ymchwilio i gynefinoedd creaduriaid bach ac yn creu gwestyau i drychfilod ar sail y wybodaeth hon.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu â dysgu yn effeithiol trwy ymweliadau cyfoethog. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â Thraeth Langland lle maent yn ymchwilio i beth sy'n byw yn y pyllau glan môr. Mae tripiau disgyblion hŷn i Fannau Brycheiniog yn eu cynorthwyo i ddatblygu gwydnwch, cydweithredu a medrau datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn awyddus i fwynhau eu dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn llwyddiannus i gynorthwyo datblygiad medrau a lles disgyblion. Maent yn rhannu amcanion dysgu â disgyblion, ac ar adegau, yn ysgogi gwybodaeth flaenorol disgyblion o bryd i'w gilydd. Mae athrawon a staff cymorth yn fodelau rôl iaith da ac mae llawer ohonynt yn defnyddio holi'n effeithiol i ymestyn ymatebion disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ansawdd cyflwyniadau athrawon i wersi a'u holi yn effeithiol. At ei gilydd, mae adborth athrawon yn rhy amrywiol, gan arwain at golli cyfleoedd i herio meddwl a dysgu disgyblion. O bryd i'w gilydd, mae athrawon yn annog disgyblion i werthuso'u dysgu yn erbyn meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig geiriol ac ysgrifenedig i ddisgyblion, o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, nid yw adborth athrawon yn ddigon penodol ac amserol ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i wella ansawdd eu gwaith yn ddigonol.

Mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu dan do ysgogol, sy’n fuddiol i ddysgu’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r amgylchedd yn yr awyr agored wedi’i ddatblygu’n ddigonol ac ni chaiff ei ddefnyddio’n ddigon pwrpasol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wella’u medrau trwy ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae cynllunio athrawon i ddatblygu medrau gwrando, siarad a darllen disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw pob un o’r athrawon yn darparu digon o her nac yn cynllunio cyfleoedd digonol i ddisgyblion wella’u medrau ysgrifennu estynedig. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio’n gyson i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff yn y dosbarth trochi Cymraeg yn dangos lefel uchel o ymroddiad a brwdfrydedd i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol o fewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i lwyddo yn eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r ethos hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau bron pob un o’r disgyblion a’u datblygiad o fewn y dosbarth trochi. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o’r staff yn modelu a defnyddio amrywiaeth eang o batrymau brawddeg Cymraeg yn rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth i roi cyfarwyddyd i’r disgyblion, a’u holi. Mae athrawon hefyd yn darparu rhaglenni cyfoethogi defnyddiol i ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ymhellach.

Mae staff yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol a chydweithwyr yn y clwstwr, gan gynnwys yr ysgol uwchradd fwydo. Mae’r cydweithio hwn yn sicrhau dull cyson wrth gynllunio’r cwricwlwm, yn ogystal ag elwa ar gyfleoedd hyfforddi. O ganlyniad, mae disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig a phrysur. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn datblygu ystod o wahanol fedrau, fel ffilmio, golygu a dysgu sut i greu eu ap eu hunain wrth weithio gyda chwmni cyfryngau.

Mae staff yr ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae athrawon yn cyfarfod ag uwch arweinwyr bob tymor i drafod y cynnydd y mae pob disgybl yn ei wneud. Rhoddir cymorth ychwanegol i ddisgyblion y nodwyd eu bod yn gwneud cynnydd annigonol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff a disgyblion yn dangos lefel uchel o ofal a pharch am ei gilydd, sy’n cyfrannu at y gymuned ddysgu anogol y mae’r ysgol yn ei darparu. Mae ethos a gweledigaeth gynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae ymagweddau’r ysgol at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae staff yn fodelau rôl effeithiol sydd â disgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn gosod ffiniau clir y mae disgyblion yn eu deall a’u parchu. Mae’r ysgol yn darparu cymorth da ar gyfer iechyd meddwl a lles disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio ystod o ymyriadau a rhaglenni cwnsela i sicrhau bod disgyblion â hunan-barch isel yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o gyfleoedd ar gyfer disgyblion, sy'n hyrwyddo'u hymwybyddiaeth o dreftadaeth leol a diwylliant Cymru, ac fe gaiff hyn ei ddathlu'n llwyddiannus ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion greu murlun ysgol yn darlunio treftadaeth y pentrefi lleol sy'n creu cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn dechrau ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu am agweddau yn ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol ehangach, ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn.

Mae staff yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu cysylltiadau pwrpasol â'u cymuned leol, y mae disgyblion yn ymgysylltu â nhw'n dda. Mae'r ysgol yn trefnu ystod o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â'r gymuned sy'n atgyfnerthu ymdeimlad disgyblion o berthyn. Mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i ddeall pwysigrwydd sut maent yn ymwneud â'u cymuned leol, ac o ganlyniad, yn datblygu empathi a thosturi. Er enghraifft, fel rhan o wasanaethau Diwrnod y Cofio, mae staff yn trefnu i ddisgyblion gymryd rhan yng ngweithred galw enwau milwyr lleol a fu farw ar faes y gad. Mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth trwy eu cyfranogiad yng ngweithgareddau llais y disgybl.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i archwilio gwahanol gredoau a gwerthoedd ysbrydol, a myfyrio ar nodweddion ffigurau crefyddol allweddol. Er enghraifft, fel rhan o'u testun 'Pencampwyr', mae disgyblion hŷn yn nodi ac esbonio sut caiff ansawdd yr 'aberth' ei ddangos ym mywyd a gweithredoedd Iesu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau pwrpasol a dilys i ddisgyblion ddatblygu a chymryd rhan yn y celfyddydau creadigol. Mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau hyn, sy'n meithrin eu hunanhyder a'u medrau mynegiannol. Er enghraifft, caiff disgyblion Blwyddyn 3 gyfleoedd i berfformio fel rhan o berfformiad offerynnau pres yr ysgol, ac mae disgyblion, staff a rhieni yn mynychu hwn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb ac yn rhoi cymorth ar waith i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd. Mae gan yr ysgol ddulliau effeithiol ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag ADY yn yr ystafell ddosbarth. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyflwyno rhaglenni cymorth sy'n canolbwyntio ar anghenion teilwredig disgyblion unigol. Defnyddir cynlluniau cymorth disgyblion i ddarparu targedau penodol ar gyfer unigolion, ac amlinellu'r ymyriadau sy'n ofynnol i symud disgyblion dynodedig ymlaen yn eu dysgu. Caiff y rhain eu datblygu ar y cyd â disgyblion, staff a rhieni i sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth priodol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer olrhain a monitro effaith cymorth ychwanegol ar gynnydd disgyblion yn dechrau datblygu.

Mae staff yn nodi a chynorthwyo disgyblion ag ADY ar draws yr ysgol yn effeithiol. Pan fo'n briodol, mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol arbenigol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd ymhellach. Gwnaed cysylltiadau cryf ag ysgolion clwstwr lleol, gan gynnwys sefydlu grŵp fforwm cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol rheolaidd, sy'n darparu cymorth cydgefnogol i gydweithwyr.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel a saff ar gyfer disgyblion. Ceir diwylliant diogelu cadarnhaol lle rhoddir blaenoriaeth i les cymuned yr ysgol gyfan. Mae'r pennaeth yn olrhain a monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr. O ganlyniad, mae'r

rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd ar ôl y pandemig.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn allweddol o ran creu cymuned gynnes a chroesawgar, sydd â lles disgyblion yn ganolog iddi. Mae'n darparu arweinyddiaeth dosturiol ac ystyriol ac yn sicrhau bod pob un o'r staff yn canolbwyntio ar greu cymuned ofalgar a chynhwysol, lle mae pob un o'r disgyblion a'r oedolion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn modelu ymddygiadau a gwerthoedd yn gyson, fel parch, caredigrwydd a chyfrifoldeb. O ganlyniad, mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn gadarnhaol iawn.

Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n dda â'r holl randdeiliaid i rannu gweledigaeth yr ysgol, sef 'Mwynhau, Archwilio, Cyflawni,' sy'n sicrhau bod perthnasoedd yr ysgol â rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned yn gryf. Mae'r cyfathrebu â rhieni yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn gallu codi unrhyw broblemau a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso da ar waith i fonitro addysgu, cynnydd disgyblion a gwelliant yr ysgol. Ceir calendr cynlluniedig o weithgareddau monitro sy'n nodi'n briodol beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a pha feysydd y mae angen eu datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith yn ddigon cyflym i ysgogi gwelliannau ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digon cyflym yn eu dysgu.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, ynghyd â staff, yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY. Maent yn defnyddio gwybodaeth olrhain yn briodol i'w helpu i nodi disgyblion a fyddai'n elwa ar gymorth academaidd neu gymorth lles ychwanegol. Rhoddir hyn ar waith yn brydlon ac mae'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau unigol.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gefnogol i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac yn cynorthwyo'r pennaeth yn dda yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol. Mae llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, diogelu ac effaith tlodi ar fywydau rhieni a disgyblion o fewn eu cymuned eu hunain. Maent yn defnyddio'u harbenigedd yn briodol i gefnogi agweddau ar waith yr ysgol. Er enghraifft, maent yn monitro cyllid yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan yr ysgol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae adroddiadau'r pennaeth yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Mae llywodraethwyr hefyd yn casglu eu gwybodaeth eu hunain ac yn cyfrannu'n briodol at y prosesau hunanwerthuso, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu, yn gwrando ar ddysgwyr, yn craffu ar waith disgyblion ac yn arwain deialog broffesiynol gydag arweinwyr y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth wedi creu diwylliant cadarnhaol, sy'n hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol pob aelod o staff yn effeithiol. Mae ffocws ar hyfforddiant staff, sydd wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion proffesiynol y staff.

Mae cynorthwywyr addysgu wedi derbyn hyfforddiant mewn amrywiaeth o ymyriadau i gefnogi anghenion llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion unigol yn well. Er bod pob un o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau o ran addysgu a'r cwricwlwm yn dda, ni chaiff gweithgareddau arweinyddiaeth eu rhannu'n gyfatebol, sy'n arwain at ddosbarthiad anghyfartal o gyfrifoldebau.

Caiff yr ardal o dir yr ysgol, 'Y Gwyllt', ei defnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion i ddatblygu ystod o fedrau dysgu. Fodd bynnag, ni ddarperir adnoddau da ar gyfer yr ardaloedd awyr agored sy'n cysylltu â phob ystafell ddosbarth. O ganlyniad, nid yw eu defnydd mewn hyrwyddo dysgu'r disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol gan nad yw'n aml yn benodol neu'n addas i ddysgu yn yr awyr agored.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi gweithio'n bwrpasol i baratoi ar gyfer gweithredu dosbarth cyfrwng Cymraeg. Bu ffocws effeithiol a chynaledig ar ddatblygu dwyieithrwydd a'r diwylliant Cymreig o fewn yr ysgol, yn barod ar gyfer hyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023